



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2008 Rhif 1976 (Cy.185)

2008 No. 1976 (W.185)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH,
WALES**

**Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat
(Cymru) 2008**

**The Private Dentistry (Wales)
Regulations 2008**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("y Ddeddf"). Maent yn addasu'r Ddeddf er mwyn cymhwyso Rhan II o'r Ddeddf i ddeintyddion sy'n darparu gwasanaethau deintyddol heb iddynt fod yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("deintyddiaeth breifat"). Maent yn gwneud darpariaeth o ran y personau a'r gwasanaethau hynny.

These Regulations are made under the Care Standards Act 2000 ("the Act"). They modify the Act so as to apply Part II of the Act to dentists who provide dental services otherwise than in pursuance of the National Health Service (Wales) Act 2006 ("private dentistry"). They make provision in relation to those persons and services.

Mae Rhan I o'r Ddeddf a Rhan II fel y'u cymhwysir gan y Rheoliadau hyn yn darparu bod Gweinidogion Cymru, o ran Cymru, yn cofrestru personau sy'n darparu deintyddiaeth breifat. Mae Rhan II yn darparu bod person sy'n darparu deintyddiaeth breifat heb iddo gofrestru i wneud hynny, yn cyflawni tramgwydd. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglyn â'r cyfryw bersonau a gwasanaethau. O dan adran 13 o'r Ddeddf mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gael eu bodloni bod cydymffurfiaeth â'r rheoliadau, ac y bydd cydymffurfiaeth â hwy yn parhau, cyn iddynt ganiatáu cais i gofrestru.

Part I of the Act and Part II as applied by these Regulations provide for the Welsh Ministers, in relation to Wales, to register persons providing private dentistry. Part II provides that a person who provides private dentistry without being registered to do so commits an offence. The Act also provides for the Welsh Ministers to make regulations in relation to such persons and services. Under section 13 of the Act the Welsh Ministers must be satisfied that the regulations are being and will continue to be complied with before an application for registration is granted.

Mae rheoliadau 3 a 4 ac Atodlen 1 yn cymhwyso, gydag addasiad, Ran II o'r Ddeddf i bersonau sy'n darparu deintyddiaeth breifat.

Regulations 3 and 4 and Schedule 1 apply, with modification, Part II of the Act to persons who provide private dentistry.

Mae rheoliad 5 yn pennu'r ffurf ar gyfer gwneud cais i gofrestru a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi gyda'r cais hwnnw. Gwahaniaethir rhwng y ceiswyr hynny sy'n bwriadu darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn unig a'r rheini a fydd hefyd yn darparu gwasanaethau deintyddol at ddibenion y GIG. Mae rheoliad 6 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu collfarnau sydd wedi'u disbyddu os gofynnir amdanynt

Regulation 5 specifies the form for making an application for registration and the information that must be supplied with that application. Distinction is made between those applicants who intend to provide only private dental services and those who also provide dental services for the purposes of the NHS. Regulation 6 requires the disclosure of spent convictions if requested by the registration authority

gan yr awdurdod cofrestru ac mae rheoliad 7 yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd hysbysu newidiadau penodol os ydynt yn digwydd rhwng gwneud y cais a'r cofrestru.

Mae rheoliad 8 yn pennu cynnwys y dystysgrif gofrestru. Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol dychwelyd y dystysgrif ar ôl iddi gael ei diddymu. Mae rheoliad 10 yn pennu'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am amrywio amod neu dynnu amod cofrestru.

Mae rheoliadau 11 a 12 yn gwneud darpariaeth ynghylch diddymu cofrestriad.

Mae rheoliad 13 ac Atodlen 2 yn nodi gofynion o ran ffïtrwydd person cofrestredig.

Mae rheoliad 14 yn gwneud darpariaeth ynghylch ansawdd gwasanaethau deintyddol preifat. Mae rheoliadau 15 a 16 yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn gwyno a thrin cwynion.

Mae rheoliad 17 yn rhagnodi'r ffi flynyddol sy'n daladwy gan bersonau cofrestredig. Mae rheoliad 18 yn ei gwneud yn ofynnol bod digwyddiadau penodol yn cael eu hysbysu. Mae rheoliad 19 yn pennu bod methu â chydymffurfio â rheoliadau penodol yn dramgwydd. Mae rheoliad 20 yn darparu y caiff yr awdurdod cofrestru bennu swyddfa briodol at ddibenion y Rheoliadau hyn. Mae rheoliadau 21 a 22 yn gwneud diwygiadau canlyniadol ac mae rheoliad 23 yn gwneud darpariaethau trosiannol.

and regulation 7 requires the applicant to give notice of certain changes if they occur between application and registration.

Regulation 8 specifies the contents of the certificate of registration. Regulation 9 requires return of the certificate following cancellation. Regulation 10 specifies the procedure for application for variation or removal of a condition of registration.

Regulations 11 and 12 make provision about the cancellation of registration.

Regulation 13 and Schedule 2 set out requirements in relation to the fitness of a registered person.

Regulation 14 makes provision about the quality of private dental services. Regulations 15 and 16 make provision about complaints procedure and handling of complaints.

Regulation 17 prescribes the annual fee payable by registered persons. Regulation 18 requires notification to be given of certain events. Regulation 19 specifies that failure to comply with certain regulations is an offence. Regulation 20 provides that the registration authority may specify an appropriate office for the purpose of these Regulations. Regulations 21 and 22 make consequential amendments and regulation 23 makes transitional provisions.

2008 Rhif 1976 (Cy.185)

2008 No. 1976 (W.185)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

**PUBLIC HEALTH,
WALES**

**Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat
(Cymru) 2008**

**The Private Dentistry (Wales)
Regulations 2008**

Gwnaed 23 Gorffennaf 2008

Made 23 July 2008

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 24 Gorffennaf 2008

*Laid before the National
Assembly for Wales* 24 July 2008

Yn dod i rym 1 Ionawr 2009

Coming into force 1 January 2009

TREFN Y RHEOLIADAU

ARRANGEMENT OF REGULATIONS

RHAN I - CYFFREDINOL

PART I - GENERAL

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Personau rhagnodedig
4. Addasu adran 28 o'r Ddeddf (methu â dangos tystysgrif gofrestru)

1. Title, commencement and application
2. Interpretation
3. Prescribed persons
4. Modification of section 28 of the Act (failure to display certificate of registration)

RHAN II

PART II

CEISIADAU I GOFRESTRU

APPLICATIONS FOR REGISTRATION

5. Gwybodaeth a dogfennau sydd i'w darparu gan geisydd
6. Collfarnau
7. Hysbysu newidiadau

5. Information and documents to be provided by an applicant
6. Convictions
7. Notice of changes

RHAN III

PART III

TYSTYSGRIFAU COFRESTRU

CERTIFICATES OF REGISTRATION

8. Cynnwys tystysgrif
9. Dychwelyd tystysgrif
10. Cais i amrywio neu dynnu amod

8. Contents of certificate
9. Return of certificate
10. Application for variation or removal of a condition

RHAN IV

PART IV

DIDDYMU COFRESTRIAD

CANCELLATION OF REGISTRATION

11. Diddymu cofrestriad
12. Cais i ddiddymu cofrestriad

11. Cancellation of registration
12. Application for cancellation of registration

RHAN V

PERSONAU COFRESTREDIG

13. Ffitrwydd person cofrestredig

RHAN VI

ANSAWDD GWASANAETH A DDARPERIR

14. Ansawdd y drinaeth

15. Cwynion

16. Ymdrin â Chwynion

RHAN VII

AMRYWIOL

17. Ffi flynyddol

18. Hysbysu newidiadau

19. Tramgwyddau

20. Pennu swyddfeydd priodol

21. Diwygio Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002

22. Diwygio Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Diddymu Ffioedd)(Cymru) 2006

23. Darpariaethau Trosiannol

Atodlen 1

CYMHWYSO RHAN II O DDEDDF SAFONAU GOFAL 2000 I BERSONAU SY'N DARPARU GWASANAETHAU DEINTYDDOL PREIFAT

Atodlen 2

GWYBODAETH A DOGFENNAU A FYDD AR GAEL YNGHYLCH PERSONAU COFRESTREDIG

Mae Gweinidogion Cymru ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy(1), yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 12(2), 14(1)(d), 15(3), 16(1), 16(3), 22(1), 22(2)(a), (c) a (d), 25(1), 42(1) a 118(5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(2).

PART V

REGISTERED PERSONS

13. Fitness of registered person

PART VI

QUALITY OF SERVICE PROVISION

14. Quality of treatment

15. Complaints

16. Handling complaints

PART VII

MISCELLANEOUS

17. Annual fee

18. Notice of changes

19. Offences

20. Specification of appropriate offices

21. Amendment of the Registration of Social Care and Independent Health Care (Wales) Regulations 2002

22. Amendment of the Care Standards Act 2000 and the Children Act 1989 (Abolition of Fees)(Wales) Regulations 2006

23. Transitional provisions

Schedule 1

APPLICATION OF PART II OF THE CARE STANDARDS ACT 2000 TO PERSONS PROVIDING PRIVATE DENTAL SERVICES

Schedule 2

INFORMATION AND DOCUMENTS TO BE AVAILABLE IN RESPECT OF REGISTERED PERSONS

The Welsh Ministers, having consulted such persons as they consider appropriate(1), make the following Regulations in exercise of the powers conferred upon them by Sections 12(2), 14(1)(d), 15(3), 16(1), 16(3) 22(1), 22(2)(a), (c) and (d), 25(1), 42(1) and 118(5) to (7) of the Care Standards Act 2000(2).

(1) Gweler adran 22(9) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 am y gofyniad i ymgynghori.

(2) 2000 p.14. Rhoddir y pwerau i'r "appropriate Minister". Ystyr "Appropriate Minister" yw'r Cynulliad o ran Cymru: gweler adran 121(1) o'r Ddeddf. Trosglwyddir y pwerau i Weindogion Cymru gan Atodlen 11 paragraff 30 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Mae adran 42(1) o'r Ddeddf yn darparu y caiff rheoliadau gymhwysu darpariaethau Ran II o'r Ddeddf i bersonau a ragnodir gan y rheoliadau hynny. Yn rhinwedd rheoliad 3 (a wneir o dan adran 42(1) o'r Rheoliadau hyn, ac Atodlen 1 iddynt, gwneir y personau a ragnodir yn rheoliad 3(1) yn ddarostyngedig i'r darpariaethau perthnasol yn Rhan II o'r Ddeddf.

(1) See section 22(9) of the Care Standards Act 2000 for the requirement to consult.

(2) 2000 c.14. The powers are conferred upon the "appropriate Minister". "Appropriate Minister" means the Assembly in relation to Wales: see section 121(1) of the Act. The powers are transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32). Section 42(1) of the Act provides that regulations may apply the provisions of Part II of the Act to persons prescribed by those regulations. By virtue of regulation 3 (made under s.42(1) of, and Schedule 1 to, these Regulations, the persons prescribed in regulation 3(1) are made subject to the relevant provisions of Part II of the Act.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "claf" ("*patient*") yw person y darperir gwasanaethau deintyddol iddo;

ystyr "cofrestr deintyddion" ("*dentists register*") yw'r gofrestr y cyfeirir ati yn adran 14(1) o'r Ddeddf Deintyddion 1984;

ystyr "deintydd" ("*dentist*") yw person a gofrestrwyd o dan Ddeddf Deintyddion 1984;

ystyr "deintyddiaeth breifat" ("*private dentistry*") yw gwasanaethau deintyddol a ddarperir heb fod at ddibenion y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, dydd Nadolig, dydd Gŵyl San Steffan, dydd Gwener y Groglith neu ddiwrnod sy'n wyl y banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(1).

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

ystyr "gwasanaethau deintyddol" ("*dental services*") yw unrhyw drinaeth ddeintyddol a ddarperir gan ddeintydd;

ystyr "gwasanaethau deintyddol preifat" ("*private dental services*") yw gwasanaethau deintyddol na ddarperir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(2);

ystyr "person cofrestredig" ("*registered person*") yw person a gofrestrwyd yn ddarparpwyd gwasanaethau deintyddol;

ystyr "rhestr o ymarferwyr AEE sy'n ymweld" ("*list of visiting EEA practitioners*") yw'r rhestr a lunnir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol o ymarferwyr AEE sy'n ymweld ac sy'n gweithio ar sail dros dro ac ar sail achlysurol;

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Private Dentistry (Wales) Regulations 2008 and they come into force on 1 January 2009.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations —

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Care Standards Act 2000;

"appropriate office of the registration authority" ("*swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru*") means in relation to a provider of dental services —

- (a) if an office of the registration authority has been specified under regulation 20 that office; or
- (b) in any other case, any office of the registration authority;

"complaints procedure" ("*yr weithdrefn gwynion*") must be construed in accordance with regulation 15;

"dental performers list" ("*rhestr performwyr deintyddol*") means the list prepared by a Local Health Board or Primary Care Trust and published pursuant to regulation 3(1)(b) of the National Health Service (Performers Lists) (Wales) Regulations 2004(1) or regulation 3(1)(b) of the National Health Service (Performers Lists) Regulations 2004(2) as appropriate;

"dental services" ("*gwasanaethau deintyddol*") means any dental treatment provided by a dentist;

"dentist" ("*deintydd*") means a person registered under the Dentists Act 1984;

"dentists register" ("*cofrestr deintyddion*") means the register referred to in section 14(1) of the Dentists Act;

"insurance" ("*yswariant*") means —

- (a) a contract of insurance providing cover for liabilities which may be incurred in carrying out work as a dentist or clinical dental technician, or

(1) 1971 p.80.

(2) 2006 p.42.

(1) S.I. 2004/1020 (W.117).

(2) S.I. 2004/585.

ystyr "rhestr perfformwyr deintyddol" ("*dental performers list*") yw'r rhestr a luniwyd gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol ac a gyhoeddwyd yn unol â rheoliad 3(1)(b) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Perfformwyr) (Cymru) 2004(1) neu reoliad 3(1)(b) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestr Perfformwyr) 2004(2) fel y bo'n briodol;

ystyr "rhif cofrestriad proffesiynol" ("*professional registration number*") yw'r rhif gyferbyn ag enw'r person yn y gofrestr deintyddion;

ystyr "swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru" ("*appropriate office of the registration authority*") o ran darparydd gwasanaethau deintyddol yw—

- (a) os cafodd swyddfa awdurdod cofrestru ei phennu o dan reoliad 20, y swyddfa honno; neu
- (b) mewn unrhyw achos arall, unrhyw un o swyddfeydd yr awdurdod cofrestru;

ystyr "yswiriant" ("*insurance*") yw—

- (a) contract yswiriant sy'n darparu gwarchodaeth dros rwymedigaethau y gellir eu creu wrth gyflawni gwaith deintydd neu waith technegwr deintyddol clinigol, neu
- (b) trefniant a wneir er mwyn indemnio person rhag rhwymedigaethau o'r fath;

rhaid dehongli "y weithdrefn gwynion" ("*complaints procedure*") yn unol â rheoliad 15.

(2) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad—

- (a) at reoliad neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad neu'r Atodlen yn y Rheoliadau hyn sy'n dwyn y rhif hwnnw;
- (b) mewn rheoliad neu Atodlen at baragraff â rhif yn gyfeiriad ar y paragraff yn y rheoliad hwnnw neu yn yr Atodlen honno sy'n dwyn y rhif hwnnw;
- (c) mewn paragraff at lythyren neu is-baragraff â rhif yn gyfeiriad ar yr is-baragraff yn y paragraff hwnnw sy'n dwyn y rhif hwnnw neu'r llythyren honno.

(3) Yn Atodlen 1, mae cyfeiriad at Ran II o'r Ddeddf yn gyfeiriad at Ran II o'r Ddeddf fel y'i cymhwysir gan reoliad 3 ac Atodlen 1.

Personau Rhagnodedig

3.—(1) Mae deintydd sy'n darparu unrhyw wasanaethau deintyddol heb fod yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 drwy hyn yn rhagnodedig at ddibenion adran 42(1) o'r Ddeddf.

(b) an arrangement made for the purpose of indemnifying a person against such liabilities;

"list of visiting EEA practitioners" ("*rhestr o ymarferwyr AEE sy'n ymweld*") means the list prepared by the General Dental Council of visiting EEA practitioners working on a temporary and occasional basis;

"private dental services" ("*gwasanaethau deintyddol preifat*") means dental services not provided under the National Health Service (Wales) Act 2006(1);

"patient" ("*claf*") means a person to whom dental services are provided;

"private dentistry" ("*deintyddiaeth breifat*") means dental services provided otherwise than for the purposes of the National Health Service;

"professional registration number" ("*rhif cofrestriad proffesiynol*") means the number against the person's name in the dentists register;

"registered person" ("*person cofrestredig*") means a person who is registered as a provider of dental services;

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means a day except Saturday, Sunday, Christmas Day, Boxing Day, Good Friday or a day which is a bank holiday under the Banking and Financial Dealings Act 1971(2).

(2) In these Regulations a reference —

- (a) to a numbered regulation or Schedule is to the regulation in or Schedule to these Regulations bearing that number;
- (b) in a regulation or Schedule to a numbered paragraph is to the paragraph in that regulation or Schedule bearing that number;
- (c) in a paragraph to a letter or numbered sub-paragraph is to the sub-paragraph in that paragraph bearing that number or letter.

(3) In Schedule 1, a reference to Part II of the Act is to Part II of the Act as applied by regulation 3 and Schedule I.

Prescribed persons

3.—(1) A dentist who provides any dental service otherwise than in pursuance of the National Health Service (Wales) Act 2006 is hereby prescribed for the purposes of section 42(1) of the Act.

(1) O.S. 2004/1020 (Cy.117).

(2) O.S. 2004/585.

(1) 2006 c.42.

(2) 1971 c.80.

(2) Mae Rhan II o'r Ddeddf yn gymwys i bersonau a ragnodir ym mharagraff (1) yn unol ag Atodlen 1 ac yn unol â'r addasiad a bennir yn rheoliad 4.

Addasu adran 28 o'r Ddeddf (methu â dangos tystysgrif gofrestru)

4. Bydd adran 28(1) yn effeithiol fel petai'n darllen:

"A certificate of registration issued under this Part in respect of a person who provides private dental services must be kept affixed in a conspicuous place where such services are provided."

RHAN II

CEISIADAU I GOFRESTRU

Gwybodaeth a dogfennau sydd i'w darparu gan geisydd

5.—(1) Rhaid i gais am gofrestru—

- (a) bod yn ysgrifenedig ar ffurf a gymeradwyir gan yr awdurdod cofrestru;
- (b) cael ei anfon neu ei draddodi i swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru;
- (c) cael ffotograff diweddar o'r ceisydd gyda'r cais, a rhaid i'r ffotograff ddangos tebygrwydd gwirioneddol ohono;
- (ch) rhoi'r wybodaeth neu roi gyda'r cais yr wybodaeth y mae'n ofynnol i'r ceisydd ei darparu yn unol â pharagraff (2), (3) neu (4); a
- (d) anfon ffi o £50 gyda'r cais ynglŷn â phob ceisydd.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (3) a (4) rhaid i berson sy'n ceisio cael ei gofrestru fel person sy'n darparu gwasanaethau deintyddol yn breifat roi i'r awdurdod cofrestru'r wybodaeth lawn a restrir yn is-baragraffau (a) i (ng) ac (i) —

- (a) enw llawn y ceisydd, ei ddyddiad geni, cyfeiriad a rhif ffôn a chyfeiriad (a all fod yn gyfeiriad cartref) lle y gall cleifion ddod i gysylltiad â'r deintydd;
- (b) manylion cronolegol profiad proffesiynol y ceisydd, cyn graddio ac ar ôl graddio, i'r graddau y maent yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau deintyddol gan gynnwys cyfnodau o hunangyflogaeth, y dyddiadau pan oedd yn dal pob swydd, y rheswm dros adael pob swydd ac esboniad am unrhyw fwlch rhwng swyddi;

(2) Part II of the Act applies to persons prescribed in paragraph (1) in accordance with Schedule 1 and with the modification specified in regulation 4.

Modification of section 28 of the Act (failure to display certificate of registration)

4. Section 28(1) has effect as if it read:

"A certificate of registration issued under this Part in respect of a person who provides private dental services must be kept affixed in a conspicuous place where such services are provided."

PART II

APPLICATIONS FOR REGISTRATION

Information and documents to be provided by an applicant

5.—(1) An application for registration must —

- (a) be in writing on a form approved by the registration authority;
- (b) be sent or delivered to the appropriate office of the registration authority;
- (c) be accompanied by a recent photograph of the applicant, of whom the photograph shall be a true likeness;
- (d) give the information or be accompanied by the documents that the applicant is required to provide in accordance with paragraph (2), (3) or (4); and
- (e) be accompanied by a fee of £50 in respect of each applicant.

(2) Subject to paragraphs (3) and (4) a person who is seeking to be registered as a person who provides dental services privately must provide to the registration authority full information listed in sub-paragraphs (a) to (k) and (m) —

- (a) the applicant's full name, date of birth, home address and telephone number and an address (which may be the home address) at which the dentist may be contacted by patients;
- (b) chronological details of the applicant's professional experience, both before and after graduation, so far as relevant to the provision of dental services including periods of self employment, dates of all posts held, the reason for leaving each post and explanation for any gap between posts;

- (c) enw a chyfeiriad dau ganolwr—
- (i) nad ydynt yn berthnasau i'r ceisydd;
 - (ii) y mae'r ddau'n gallu darparu geirda o ran cymhwysedd y ceisydd i ddarparu gwasanaethau deintyddol; a
 - (iii) y mae'r ddau'n gallu darparu geirda sy'n ymwneud â chyfnod diweddar o gyflogaeth neu swydd am o leiaf 3 mis;

ond o ran pob canolwr pan fo'r awdurdod cofrestru wedi'i fodloni nad yw'n ymarferol i gael geirda gan berson sy'n bodloni'r gofyniad yn is-baragraff (iii), rhaid rhoi esboniad llawn ac enw a chyfeiriad canolwr arall nad yw'n bodloni'r gofynion hynny;

- (ch) datganiad ei fod naill ai ar gofrestr y deintyddion neu ar restr yr ymarferwyr AEE sy'n ymweld;
- (d) naill ai ei rif cofrestrriad proffesiynol a dyddiad y cofrestrriad cyntaf neu Dystysgrif Deintydd AEE sy'n ymweld;
- (dd) tystysgrif yswiriant ar gyfer y ceisydd mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaeth y mae'n bosibl i'r ceisydd fynd iddi mewn perthynas â darparu gwasanaethau deintyddol o ran marwolaeth, anaf, atebolrwydd i'r cyhoedd, difrod neu unrhyw golled arall;
- (e) ei gymwysterau proffesiynol a lle y'u cafwyd, gyda thystiolaeth ynghylch ei gymwysterau a'i brofiad;
- (f) tystysgrif geni'r ceisydd neu, os ganwyd y ceisydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig, ei basbort;
- (ff) os nad yw'r ceisydd yn wladolyn gwladwriaeth yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, tystiolaeth o hyfedredd y ceisydd mewn Saesneg at lefel sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu gwasanaethau deintyddol;
- (g) tystysgrif record droseddol fanwl —
 - (i) a ddyroddwyd o dan adran 115 o Ddeddf yr Heddlu 1997(1); a
 - (ii) y cydlofnodwyd y cais amdani gan yr awdurdod cofrestru;
- (ng) datganiad gan y ceisydd ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn ac y bydd yn parhau i gydymffurfio â hwy o ran darparu gwasanaethau deintyddol;
- (h) datganiad gan y ceisydd ei fod yn gyfredol ar restr perfformwyr deintyddol ac enw a chyfeiriad y Bwrdd Iechyd Lleol neu'r Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol a gyhoeddodd y rhestr honno;
- (i) manylion unrhyw amod a osodwyd ar ei gofrestrriad proffesiynol neu wrth ei gynnwys ar restr perfformwyr deintyddol.

- (c) the name and addresses of two referees —
- (i) who are not relatives of the applicant;
 - (ii) each of whom is able to provide a reference as to the applicant's competence to provide dental services; and
 - (iii) each of whom is able to provide a reference which relates to a recent period of employment or post of at least 3 months;

but in respect of each referee where the registration authority is satisfied that it is not practicable to obtain a reference from a person who fulfils the requirement in sub-paragraph (iii), a full explanation and the name and address of an alternative referee who does not meet those requirements;

- (d) a declaration that he or she is included in either the dentists register or list of visiting EEA practitioners;
- (e) either his or her professional registration number and date of first registration or a visiting EEA Dentist Certificate;
- (f) a certificate of insurance for the applicant in respect of liability which may be incurred by him or her in relation to the provision of dental services in respect of death, injury, public liability, damage or other loss;
- (g) his or her professional qualifications and where they were obtained, with evidence concerning his or her qualifications and experience;
- (h) the applicant's birth certificate or, if the applicant was born outside the United Kingdom, his or her passport;
- (i) where the applicant is not a national of an EEA state evidence of the applicant's proficiency in the English language to a level necessary for the provision of dental services;
- (j) an enhanced criminal records certificate —
 - (i) which has been issued under section 115 of the Police Act 1997(1); and
 - (ii) the application for which was countersigned by the registration authority;
- (k) a statement by the applicant that they are complying with and will continue to comply with, these Regulations in relation to the provision of dental services;
- (l) a statement by the applicant that they are currently on a dental performers list and the name and address of the Local Health Board or Primary Care Trust that has published that list;
- (m) details of any condition imposed on his or her professional registration or inclusion on a dental performers list.

(1) 1997 p.50.

(1) 1997 c.50.

(3) Rhaid i berson sy'n ceisio cael ei gofrestru'n berson sy'n darparu gwasanaethau deintyddol yn breifat ac sydd yn gyfredol ar restr perfformwyr deintyddol GIG ddarparu i'r awdurdod cofrestru'r wybodaeth lawn a restrir ym mharagraffau (a), (ng), (h) ac (i).

(4) Rhaid i berson syn dod o fewn paragraff (3) ond na chafwyd tystysgrif record droseddol fanwl arno o ran ei gynnwys ar y rhestr perfformwyr deintyddol honno hefyd roi'r wybodaeth a restrir yn (g).

Collfarnau

6. Os yw'r awdurdod cofrestru yn gofyn i'r ceisydd am fanylion unrhyw gollfarnau troseddol sydd wedi'u disbyddu o fewn ystyr adran 1 o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyd 1974(1) ac yn ei hysbysu pan ofynnir y cwestiwn ei bod yn ofynnol yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974 (Eithriadau) 1975(2) bod collfarnau sydd wedi'u disbyddu i'w datgelu, rhaid i'r ceisydd roi manylion ysgrifenedig i'r awdurdod cofrestru o unrhyw gollfarnau sydd wedi'u disbyddu sydd ganddo.

Hysbysu newidiadau

7. Rhaid i'r ceisydd roi hysbysiad ysgrifenedig i'r awdurdod cofrestru o unrhyw newid i enw neu gyfeiriad y ceisydd sy'n digwydd ar ôl gwneud y cais cofrestru a chyn iddo gael ei benderfynu.

(3) A person who is seeking to be registered as a person who provides dental services privately and who is currently on an NHS dental performers list must provide to the registration authority full information listed in paragraphs (a), (k), (l) and (m).

(4) A person who falls within paragraph (3) but in respect of whom an enhanced criminal record certificate has not been obtained in connection with inclusion in that dental performers list must in addition provide the information listed in (j).

Convictions

6. Where the registration authority asks the applicant for details of any criminal convictions which are spent within the meaning of section 1 of the Rehabilitation of Offenders Act 1974(1) and informs him or her at the time the question is asked that by virtue of the Rehabilitation of Offenders Act 1974 (Exceptions) Order 1975(2) spent convictions are to be disclosed, the applicant must supply in writing to the registration authority details of any spent convictions that he or she has.

Notice of changes

7. The applicant must give notice in writing to the registration authority of any change of the name or address of the applicant which occurs after the application for registration is made and before it is determined.

RHAN III

TYSTYSGRIFAU COFRESTRU

Cynnwys tystysgrif

8. Rhaid i dystysgrif gofrestru gynnwys y manylion canlynol—

- (a) enw, cyfeiriad a rhif ffôn swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru;
- (b) enw'r person a gofrestrwyd i ddarparu gwasanaethau deintyddol a'r cyfeiriad lle y gall cleifion gysylltu ag ef;
- (c) os yw'r cofrestrriad yn ddarostyngedig i unrhyw amod, manylion yr amod hwnnw;
- (ch) y dyddiad cofrestru;
- (d) ac eithrio pan fo'r person cofrestredig ar restr ymarferwyr AEE sy'n ymweld, rhif cofrestrriad proffesiynol y person cofrestredig;
- (dd) unrhyw rif a ddyrennir i'r cofrestrriad gan yr awdurdod cofrestru.

(1) 1974 p.53.

(2) O.S. 1975/1023.

PART III

CERTIFICATES OF REGISTRATION

Contents of certificate

8. A certificate of registration must contain the following particulars —

- (a) the name, address and telephone number of the appropriate office of the registration authority;
- (b) the name of and the address at which the person who has been registered to provide dental services may be contacted by patients;
- (c) where the registration is subject to any condition, details of that condition;
- (d) the date of registration;
- (e) except where the registered person is on the list of visiting EEA practitioners the registered person's professional registration number;
- (f) any number allocated to the registration by the registration authority.

(1) 1974 c.53.

(2) S.I. 1975/1023.

Dychwelyd tystysgrif

9. Os diddymir cofrestriad person i ddarparu gwasanaethau deintyddol, rhaid i'r person hwnnw, heb fod yn hwyrach na'r diwrnod pan fydd y penderfyniad neu'r gorchymyn sy'n diddymu'r cofrestriad yn cymryd effaith, ddychwelyd y dystysgrif gofrestru i'r awdurdod cofrestru—

- (a) drwy ei thraddodi i swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru; neu
- (b) drwy ei hanfon i'r gyfryw swyddfa drwy'r post cofrestredig neu ddothbarthiad cofnodedig.

Cais i amrywio neu dynnu amod

10.—(1) Yn y rheoliad hwn —

ystyr "cais" yw cais a wneir gan y person cofrestredig o dan adran 15(1)(a) o'r Ddeddf i amrywio neu dynnu amod o ran y cofrestriad hwnnw;

ystyr "dyddiad effeithiol arfaethedig" yw'r dyddiad y mae'r person cofrestredig yn gofyn amdano fel y dyddiad pan fydd yr amrywiad neu dynnu'r amod y gwneir y cais amdano i gymryd effaith.

(2) Rhaid i gais —

- (a) cael ei wneud yn ysgrifenedig;
- (b) cael ei anfon neu ei draddodi i swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru dim llai na chwe wythnos cyn y dyddiad effeithiol arfaethedig neu gyfnod llai cyn y dyddiad hwnnw y gellir cytuno arno gyda'r awdurdod cofrestru;
- (c) pennu natur y cais a rhesymau'r ceisydd dros ei wneud;
- (ch) pennu'r dyddiad effeithiol;
- (d) anfon ffi o £50 gyda'r cais.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig roi i'r awdurdod cofrestru unrhyw wybodaeth arall neu ddogfennau eraill y gall yn rhesymol ofyn amdanynt ynglyn â'r cais.

RHAN IV

DIDDYMU COFRESTRIAD

Diddymu cofrestriad

11. Pennir y rhesymau canlynol at ddibenion adran 14(1)(d) o'r Ddeddf fel y rhesymau y caiff yr awdurdod cofrestru ddiddymu cofrestriad person i ddarparu gwasanaethau deintyddol —

Return of certificate

9. If the registration of a person to provide dental services is cancelled, the person must, not later than the day on which the decision or order cancelling the registration takes effect, return the certificate of registration to the registration authority by —

- (a) delivering it to the appropriate office of the registration authority; or
- (b) sending it to the said office by registered post or recorded delivery.

Application for variation or removal of a condition

10.—(1) In this regulation —

"application" means an application by the registered person under section 15(1)(a) of the Act for the variation or removal of a condition in relation to that registration;

"proposed effective date" means the date requested by the registered person as the date on which the variation or removal applied for is to take effect.

(2) An application must —

- (a) be made in writing;
- (b) be sent or delivered to the appropriate office of the registration authority not less than six weeks before the proposed effective date or such shorter period before that date as may be agreed with the registration authority;
- (c) specify the nature of the application and the applicant's reasons for making it;
- (d) specify the effective date;
- (e) be accompanied by a fee of £50.

(3) The registered person must provide the registration authority with any other information or documents that it may reasonably require in relation to the application.

PART IV

CANCELLATION OF REGISTRATION

Cancellation of registration

11. The following grounds are specified for the purpose of section 14(1)(d) of the Act as grounds on which the registration authority may cancel the registration of a person to provide dental services —

- (a) mae'r person mewn perthynas ag unrhyw gais ganddo—
 - (i) i gofrestru; neu
 - (ii) i amrywio neu dynnu amod ynghylch ei gofrestrriad,

wedi gwneud datganiad sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn mater perthnasol neu wedi rhoi gwybodaeth anwir;

- (b) nid yw'r ffi flynyddol ynglŷn â'r cofrestrriad wedi cael ei thalu erbyn y dyddiad priodol.

Cais i ddiddymu cofrestrriad

12.—(1) Yn y rheoliad hwn —

ystyr "cais i ddiddymu" yw cais gan y person cofrestredig o dan adran 15(1)(b) o'r Ddeddf i ddiddymu ei gofrestrriad;

ystyr "dyddiad effeithiol arfaethedig" yw'r dyddiad y mae'r person cofrestredig yn gofyn amdano fel y dyddiad pan fydd y diddymiad y gwneir y cais amdano i gael effaith.

(2) Rhaid i gais am ddiddymu —

- (a) cael ei wneud yn ysgrifenedig;
- (b) cael ei anfon neu ei draddodi i swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru dim llai na 3 mis cyn y dyddiad effeithiol arfaethedig neu gyfnod llai cyn y dyddiad hwnnw y gellir cytuno arno gyda'r awdurdod cofrestru;
- (c) pennu'r dyddiad effeithiol arfaethedig.

RHAN V

PERSONAU COFRESTREDIG

Ffitrwydd person cofrestredig

13.—(1) Ni chaiff person ddarparu gwasanaethau deintyddol oni bai ei fod yn ffit i wneud hynny.

(2) Nid yw person yn ffit i ddarparu gwasanaethau deintyddol onid yw'r person yn unigolyn sy'n bodloni'r gofynion a osodir ym mharagraff (3).

(3) Dyma'r gofynion —

- (a) bod yr unigolyn yn addas o ran gonestrwydd a chymeriad da i ddarparu gwasanaethau deintyddol;
- (b) bod yr unigolyn yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i ddarparu gwasanaethau deintyddol; ac

- (a) the person has in relation to any application by him or her —
 - (i) for registration; or
 - (ii) for the variation or removal of a condition in relation to his or her registration,

made a statement which is false or misleading in a material respect or provided false information;

- (b) the annual fee in respect of the registration has not been paid by the due date.

Application for cancellation of registration

12.—(1) In this regulation —

"application for cancellation" means an application by the registered person under section 15(1)(b) of the Act for the cancellation of his or her registration;

"proposed effective date" means the date requested by the registered person as the date on which the cancellation applied for is to take effect.

(2) An application for cancellation must —

- (a) be made in writing;
- (b) sent or delivered to the appropriate office of the registration authority not less than 3 months before the proposed effective date or such shorter period before that date as may be agreed with the registration authority.
- (c) specify the proposed effective date.

PART V

REGISTERED PERSONS

Fitness of registered person

13.—(1) A person shall not provide dental services unless fit to do so.

(2) A person is not fit to provide dental services unless the person is an individual who satisfies the requirements set out in paragraph (3).

(3) The requirements are that —

- (a) the individual is of suitable integrity and good character to provide dental services;
- (b) the individual is physically and mentally fit to provide dental services; and

- (c) bod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol, yn ôl y digwydd, ar gael o ran yr unigolyn ynglŷn â'r materion a bennir yn Atodlen 2.

(4) Caiff yr awdurdod cofrestru ar unrhyw adeg ei gwneud yn ofynnol i'r person cofrestredig wneud cais am dystysgrif record droseddol fanwl o dan adran 115 o Ddeddf yr Heddlu 1997, a rhaid i'r awdurdod cofrestru gydlofnodi'r cyfryw gais.

RHAN VI

ANSAWDD GWASANAETH A DDARPERIR

Ansawdd y driniaeth

14.—(1) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gwasanaethau deintyddol a ddarperir i bob claf —

- (a) yn diwallu anghenion unigol y claf;
- (b) yn adlewyrchu tystiolaeth ymchwil a gyhoeddwyd a chanllawiau a ddyroddwyd gan gyrff proffesiynol ac arbenigol priodol;
- (c) yn cael eu darparu (pan fo angen) drwy gyfrwng cyfarpar priodol;
- (ch) yn cael eu darparu mewn amgylchedd sy'n hybu lles y claf ac a luniwyd i ddarparu triniaeth yn effeithiol ac yn ddiogel.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod arferion gwaith yn cymryd i ystyriaeth sicrwydd ansawdd, gwella ansawdd a diogelwch y claf.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob cyfarpar a ddefnyddir wrth ddarparu gwasanaethau deintyddol—

- (a) yn addas at y dibenion y caiff ei ddefnyddio; a
- (b) yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da sy'n gweithio.

(4) Os defnyddir dyfeisiau amlbro wrth ddarparu gwasanaethau deintyddol rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu rhoi ar waith o ran glanhau, diheintio, arolygu, pecynnu, sterileiddio, cludo a storio dyfeisiau o'r fath.

(5) Rhaid i'r gweithdrefnau a weithredir yn unol â pharagraff (4) fod yn y fath fodd sy'n sicrhau bod dyfeisiau amlbro yn cael eu trafod yn ddiogel ac yn cael eu diheintio'n effeithiol cyn eu haildefnyddio.

- (c) full and satisfactory information or documentation, as the case may be, is available in relation to the individual in respect of the matters specified in Schedule 2.

(4) The registration authority may at any time require the registered person to apply for an enhanced criminal record certificate under section 115 of the Police Act 1997, such application to be countersigned on behalf of the registration authority.

PART VI

QUALITY OF SERVICE PROVISION

Quality of treatment

14.—(1) The registered person must ensure that dental services provided to each patient —

- (a) meet the patient's individual needs;
- (b) reflect published research evidence and guidance issued by the appropriate professional and expert bodies;
- (c) are (where necessary) provided by means of appropriate equipment;
- (d) are provided in an environment which promotes patient well-being and is designed for the effective and safe provision of treatment.

(2) The registered person must ensure that working practices take account of quality assurance, quality improvement and patient safety.

(3) The registered person must ensure that all equipment used in the provision of dental services is—

- (a) suitable for the purposes for which it is to be used; and
- (b) properly maintained and in good working order.

(4) Where reusable devices are used in the provision of dental services the registered person must ensure that appropriate procedures are implemented in relation to cleaning, disinfection, inspection, packaging, sterilisation, transportation and storage of such devices.

(5) The procedures implemented in accordance with paragraph (4) must be such as to ensure that reusable devices are handled safely and decontaminated effectively prior to re-use.

(6) Rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i leiafu'r risg o haint a lledu haint.

Cwynion

15.—(1) Rhaid i'r person cofrestredig lunio a dilyn gweithdrefn ysgrifenedig ("y weithdrefn gwynion") er mwyn ystyried cwynion a wneir i'r person cofrestredig gan glaf neu berson sy'n gweithredu ar ran y claf ("yr achwynydd").

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod cleifion a chynrychiolwyr cleifion yn ymwybodol o fodolaeth y weithdrefn gwynion ac y darperir copi iddynt pan ofynnir amdano neu, os na ddarparwyd copi eisoes, pan ddaw cwyn i law.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod unrhyw staff a gyflogir gan y person cofrestredig mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau deintyddol yn cael eu hysbysu o'r weithdrefn gwynion, yn cael copi ohoni ac yn cael eu hyfforddi'n briodol ar ei gweithrediad.

(4) Rhaid i'r weithdrefn gwynion gynnwys—

- (a) enw, cyfeiriad a rhif ffôn swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru; a
- (b) y weithdrefn, os oes un, y mae'r person cofrestredig wedi'i hysbysu ohoni gan yr awdurdod cofrestru ar gyfer gwneud cwynion i'r awdurdod hwnnw.

Ymdrin â Chwynion

16.—(1) Wrth weithredu'r weithdrefn gwynion rhaid i'r person cofrestredig gymryd i ystyriaeth ddymuniadau a theimladau'r claf hyd y gellir eu casglu a pharchu preifatrwydd y claf.

(2) Pan fo cwyn yn cael ei gwneud, rhaid i'r person cofrestredig hysbysu'r achwynydd o'i hawl i gwyno ar unrhyw bryd i'r awdurdod cofrestru.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig gydnabod iddo dderbyn y gŵyn o fewn 3 diwrnod ar ôl iddi ddod i law.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod ymateb ysgrifenedig yn cael ei anfon at yr achwynydd dim hwyrach na 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r gŵyn ddod i law.

(5) Ceir estyn y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (4) i ddyddiad penodedig pan fydd yr achwynydd yn gofyn am hynny neu gyda chytundeb yr achwynydd.

(6) Os caiff y cyfnod ei estyn o dan baragraff (5) heb fod ar gais yr achwynydd rhaid i'r person cofrestredig adolygu hynt ystyried y gwyn mewn ysbeidiau heb fod yn hwy na 10 diwrnod ar wahân ar ôl y cytundeb hwnnw a hysbysu'r achwynydd o'r hynt honno yn ysgrifenedig.

(6) The registered person must make suitable arrangements to minimise the risk of infection and the spread of infection.

Complaints

15.—(1) The registered person must prepare and follow a written procedure ("the complaints procedure") for considering complaints made to the registered person by a patient or person acting on the patient's behalf ("the complainant").

(2) The registered person must ensure that patients and representatives of patients are aware of the existence of the complaints procedure and are provided with a copy on request or, if not already provided, when a complainant is received.

(3) The registered person must ensure that any staff employed by the registered person in connection with the provision of dental services are informed about, given a copy of and appropriately trained in the operation of the complaints procedure.

(4) The complaints procedure must include —

- (a) the name, address and telephone number of the appropriate office of the registration authority; and
- (b) the procedure, if any, that has been notified to the registered person by the registration authority for the making of complaints to that authority.

Handling complaints

16.—(1) In operating the complaints procedure the registered person must take account of the ascertainable wishes and feelings of, and respect the privacy of, the patient.

(2) When a complaint is made, the registered person must advise the complainant of their right to at any time complain to the registration authority.

(3) The registered person must acknowledge receipt of the complaint within 3 working days of receipt.

(4) Subject to paragraph (5) the registered person must ensure that a written response is sent to the complainant no later than 10 working days after receipt of the complaint.

(5) The period referred to in paragraph (4) may be extended to a specified date upon request by the complainant or with the complainant's agreement.

(6) Where the period is extended under paragraph (5) otherwise than upon request by the complainant the registered person must review the progress of consideration of the complaint at intervals no longer than every 10 days apart after that agreement and notify the complainant of that progress in writing.

(7) Rhaid i'r ymateb —

- (a) crynhoi natur a sylwedd y gŵyn;
- (b) disgrifio'r camau a gymerwyd i ystyried y gŵyn a chrynhoi'r casgliadau a wnaed;
- (c) esbonio pa gamau, os oes rhai, a gymerir yng ngoleuni'r gŵyn.

(8) Os gofynnir am hynny gan yr awdurdod cofrestru, rhaid i'r person cofrestredig roi i'r awdurdod cofrestru gopi o'r ymateb a anfonwyd at yr achwynydd.

(7) The response must —

- (a) summarise the nature and substance of the complaint;
- (b) describe the action taken to consider the complaint and summarise the conclusions made;
- (c) explain what action, if any, will be taken in the light of the complaint.

(8) Where requested to do so by the registration authority, the registered person must provide the registration authority with a copy of the response sent to the complainant.

RHAN VII

AMRYWIOL

Ffi flynyddol

17. Rhaid i'r person cofrestredig dalu ffi flynyddol o £50, ac mae'r ffi gyntaf honno'n daladwy ar ben-blwydd y dyddiad cofrestru.

Hysbysu newidiadau

18. Rhaid i'r person cofrestredig roi hysbysiad ysgrifenedig i swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru cyn gynted ag y bo'n ymarferol i wneud hynny os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol yn digwydd neu os bwriedir iddynt ddigwydd—

- (a) bod y person cofrestredig yn peidio â darparu gwasanaethau deintyddol;
- (b) bod y person cofrestredig yn newid ei enw;
- (c) bod y person cofrestredig yn newid ei gyfeiriad cartref neu'r cyfeiriad y mae cleifion yn gallu cysylltu ag ef;
- (ch) bod y person cofrestredig yn peidio â bod ar restr perfformwyr deintyddol;
- (d) bod y person cofrestredig yn peidio â bod ar y gofrestr deintyddion;
- (dd) bod y person cofrestredig yn cael ei gollfarnu o unrhyw dramgwydd, neu'n cael rhybuddiad ohono, heblaw tramgwydd traffig ffyrdd na ellir ei gosbi drwy garcharu.

Tramgwyddau

19. Mae methiant i gydymffurfio ag unrhyw un o'r darpariaethau yn rheoliadau 9 ac 14 i 16 yn dramgwydd.

PART VII

MISCELLANEOUS

Annual fee

17. The registered person must pay an annual fee of £50, the first such fee being payable on the anniversary of the date of registration.

Notice of changes

18. The registered person must give notice in writing to the appropriate office of the registration authority as soon as it is practicable to do so if any of the following events take place or are proposed to take place —

- (a) the registered person ceases to provide dental services;
- (b) the registered person changes his or her name;
- (c) the registered person changes his or her home address or address at which he or she may be contacted by patients;
- (d) the registered person ceases to be on a dental performers list; or
- (e) the registered person ceases to be on the dentists register;
- (f) the registered person is convicted of, or cautioned in respect of, any offence other than a road traffic offence which is not punishable with imprisonment.

Offences

19. Failure to comply with any of the provisions of regulations 9 and 14 to 16 is an offence.

Pennu swyddfeydd priodol

20. Caiff yr awdurdod cofrestru bennu swyddfa a reolir ganddo yn swyddfa briodol mewn perthynas â phersonau sy'n darparu gwasanaethau deintyddol.

Diwygio Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002

21.—(1) Diwygir Rheoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002(1) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 1 yn ar y diwedd ychwaneger—

"(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i bersonau sy'n darparu gwasanaethau deintyddol."

(3) Yn rheoliad 2(1), yn y man priodol, mewnosoder—

"mae i "gwasanaethau deintyddol" ("*dental services*") yr un ystyr ag sydd yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008;"

Diwygio Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Dileu Ffioedd)(Cymru) 2006

22.—(1) Diwygir Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Plant 1989 (Dileu Ffioedd) (Cymru) 2006(2) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 1(2), yn y man priodol, mewnosoder—

"mae i "gwasanaethau deintyddol" ("*dental services*") yr un ystyr ag sydd yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008;"

(3) Ar ddiwedd rheoliad 1 ychwaneger —

"(4) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i bersonau sy'n darparu gwasanaethau deintyddol."

Darpariaethau trosiannol

23.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bersonau y mae'n ofynnol iddynt yn rhinwedd darpariaethau'r Ddeddf a'r Rheoliadau hyn gael eu cofrestru o dan y Ddeddf ond nad oedd yn ofynnol iddynt gael eu cofrestru felly yn union cyn 1 Ionawr 2009.

(2) Er gwaethaf unrhyw un o'r darpariaethau hynny, caiff person a oedd yn union cyn 1 Ionawr 2009 yn darparu gwasanaethau deintyddol barhau i wneud hynny heb gael ei gofrestru o dan y Ddeddf—

(a) yn ystod cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y

Specification of appropriate offices

20. The registration authority may specify an office controlled by it as the appropriate office in relation to persons who provide dental services.

Amendment of the Registration of Social Care and Independent Health Care (Wales) Regulations 2002

21.—(1) The Registration of Social Care and Independent Health Care (Wales) Regulations 2002(1) are amended in accordance with the following provisions of this regulation.

(2) In regulation 1 at the end add —

"(3) These Regulations do not apply to persons who provide dental services."

(3) In Regulation 2(1) at the appropriate place insert —

"dental services" ("*gwasanaethau deintyddol*") has the same meaning as in the Private Dentistry (Wales) Regulations 2008;"

Amendment of the Care Standards Act 2000 and the Children Act 1989 (Abolition of Fees)(Wales) Regulations 2006

22.—(1) The Care Standards Act 2000 and the Children Act 1989 (Abolition of Fees) (Wales) Regulations 2006(2) are amended in accordance with the following provisions of this regulation.

(2) In regulation 1(2) in the appropriate place insert —

"dental services" ("*gwasanaethau deintyddol*") has the same meaning as in the Private Dentistry (Wales) Regulations 2008;"

(3) At the end of regulation 1 add —

"(4) These Regulations do not apply to persons who provide dental services."

Transitional provisions

23.—(1) This regulation applies to persons who by virtue of the provisions of the Act and these Regulations are required to be registered under the Act but who immediately before 1 January 2009 were not required to be so registered.

(2) Notwithstanding any such provision, a person who immediately before 1 January 2009 was providing dental services may continue to do so without being registered under the Act —

(a) during the period of 6 months beginning with

(1) O.S. 2002/919 (Cy.107).

(2) O.S. 2006/878 (Cy.83).

(1) S.I. 2002/919 (W.107).

(2) S.I. 2006/878 (W.83).

dyddiad hwnnw; a

- (b) os gwneir cais am gael cofrestru o fewn y cyfnod hwnnw, hyd nes y gwaredir y cais hwnnw yn derfynol neu'i dynnu yn ôl.

(3) Yn y rheoliad hwn ystyr "gwaredu yn derfynol" yw'r dyddiad 28 o ddiwrnodau ar ôl caniatáu neu wrthod cofrestrriad ac, os apelir, y dyddiad pan benderfynir ar yr apêl yn derfynol neu pan roddir y gorau i'r apêl.

that date; and

- (b) if within that period application is made for registration, until that application is finally disposed of or withdrawn.

(3) In this regulation "finally disposed of" means the date 28 days following the grant or refusal of registration and, if an appeal is made, the date when the appeal is finally determined or abandoned.

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers

23 Gorffennaf 2008

23 July 2008

CYMHWYSO RHAN II O DDEDDF
SAFONAU GOFAL 2000 I BERSONAU
SY'N DARPARU GWASANAETHAU
DEINTYDDOL PREIFAT

APPLICATION OF PART II OF THE CARE
STANDARDS ACT 2000 TO PERSONS
PROVIDING PRIVATE DENTAL SERVICES

At ddibenion yr Atodlen hon rhaid deall cyfeiriadau yn Rhan II o'r Ddeddf —

- (a) at sefydliad neu asiantaeth fel cyfeiriadau at berson sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat;
- (b) at gyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir mewn sefydliad fel cyfeiriadau at gyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir gan berson sy'n darparu gwasanaethau deintyddol;
- (c) at fangre a ddefnyddir yn sefydliad neu at ddibenion asiantaeth fel cyfeiriadau at fangre a ddefnyddir at ddibenion darparu gwasanaethau deintyddol.
- (ch) at gynnal neu reoli sefydliad neu asiantaeth fel cyfeiriadau at ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat.

For the purposes of this Schedule references in Part II of the Act —

- (a) to an establishment or agency shall be taken as references to a person who provides private dental services;
- (b) to facilities or services provided in an establishment shall be taken as references to facilities or services provided by a person who provides dental services;
- (c) to premises being used as an establishment or for the purposes of an agency shall be taken as references to premises used for the purposes of the provision of dental services.
- (d) to carrying on or managing an establishment or agency shall be taken as references to providing private dental services.

**GWYBODAETH A DOGFENNAU A FYDD
AR GAEL YNGHYLCH PERSONAU
COFRESTREDIG**

1. Prawf o bwy yw'r person gan gynnwys ffotograff diweddar.
2. Tystysgrif record droseddol fanwl y mae llai na thair blynedd wedi mynd heibio ers pan ddyroddwyd hi ddiwethaf.
3. Datganiad gan y person cofrestredig ei fod wedi cael ei gynnwys ar y gofrestr deintyddion.
4. Rhif cofrestriad proffesiynol y person cofrestredig neu Dystysgrif Deintydd AEE sy'n ymweld.
5. Tystysgrif yswiriant ar gyfer y person cofrestredig mewn perthynas ag unrhyw rywmedigaeth y mae'n bosibl i'r person fynd iddi mewn perthynas â darparu gwasanaethau deintyddol o ran marwolaeth, anaf, atebolrwydd i'r cyhoedd, difrod neu unrhyw golled arall.

**INFORMATION AND DOCUMENTS TO BE
AVAILABLE IN RESPECT OF
REGISTERED PERSONS**

1. Proof of identity including a recent photograph.
2. An enhanced criminal record certificate in respect of which less than three years have elapsed since it was issued.
3. A declaration by the registered person that he or she is included in the dentists register.
4. The registered person's professional registration number or visiting EEA Dentist Certificate.
5. A certificate of insurance for the registered person in respect of liability which may be incurred by him or her in relation to the provision of dental services in respect of death, injury, public liability, damage or other loss.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2008 Rhif 1976 (Cy.185)

**IECHYD Y CYHOEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat
(Cymru) 2008

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2008 No. 1976 (W.185)

**PUBLIC HEALTH,
WALES**

The Private Dentistry (Wales)
Regulations 2008

© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.50

W357/08/08

ON